| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **13 Chwefror 2012** |
| **TEITL** | **CYLLIDEB REFENIW 2011/12 –<br>Adolygiad 3ydd Chwarter (Rhagfyr 2011)** |
| **PWRPAS** | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| **GWEITHREDIAD** | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried materion sy'n codi o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, a phenderfynu ar argymhellion priodol i reoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.** |
| **AWDUR** | **Dafydd L Edwards - Pennaeth Cyllid** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Siân Gwenllïan** |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

**1.1** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad ail chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011 ac i'r Bwrdd ar 22 Tachwedd 2011.

**1.2** Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2011/12, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

**1.3** Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol (yn y golofn ar ochr dde'r tudalennau llydan).

## 2. PRIF FATERION SY'N CODI

### 2.1 CYFFREDINOL

**Yn gyffredinol gallaf gadarnhau fod cyllidebau'r adrannau dan reolaeth gadarn eleni.** Mae hyn er gwaethaf yr elfen o risg a gymerwyd wrth lunio cyllideb 2011/12 er mwyn arbed £1.2m.

### 2.2 CHWYDDIANT

Sylwer, o dan "corfforaethol" ar y tudalen llydan diwethaf (tudalen 9), gan na fu cynnydd tâl cenedlaethol erbyn 2011/12, amcangyfrifir y bydd gweddill o £998k ar ôl yn y gyllideb wrth gefn 2011/12, ar ôl delio gyda chwyddiant arall (gweler paragraff 2.8 isod am benderfyniad ynglŷn â'i glustnodi).

### 2.3 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Sylwer fod disgwyl i'r Adran gyfan danwario £263k, yn dilyn trosglwyddo cyllideb o'r Gwasanaeth Oedolion i'r Gwasanaeth Plant yn Chwarter 2, a'r gostyngiad diweddar mewn gwariant ym maes Plant.

**2.4 ADRAN YMGYNGHORIAETH**
Mae argymhelliad i'r Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd adolygu ei drefniadau adrannol er mwyn cyfyngu gwariant a/neu cynyddu incwm masnachol, fel ei ran ef o'r "fargen" yng nghyswllt penderfyniad y Bwrdd i ddyrannu £70k ychwanegol iddo yn yr adolygiad ail chwarter.

**2.5 GWARIANT YR ADRANNAU – CYFFREDINOL**
Mae sawl adran wedi tanwario gan eu bod wedi cyflawni rhai cynlluniau arbedion cyn yr amserlen berthnasol, a thrwy gadw swyddi yn wag cyn ail-strwythuro.

**2.6** Rwy'n cefnogi bwriad yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Gofal Cwsmer sefydlu cronfeydd penodol, mewn gwahanol amgylchiadau, er mwyn cario'r adnodd ymlaen i 2012/13:-

- **Priffyrdd** – tudalen 5 – pe bai dim galw i raeanu llawer mwy y gaeaf yma, bydd cais dilynol i roi tanwariant mewn cronfa penodol ar gyfer ariannu gwaith cyfalaf angenrheidiol ym maes Gwaredu Gwastraff.

- **Gofal Cwsmer** - tudalen 8 - gofynnir i drosglwyddo £65k i gronfa ar gyfer gofynion trwyddedau meddalwedd trawsadrannol.

**2.7 TRETH TIRLENWI**
Awgrymir dyrannu'r arbedion treth tirlenwi £795k i'r gronfa ariannu strategol, fel trafodwyd yn y Bwrdd Rhaglen Arbedion (tudalen 9).

**2.8 DEFNYDDIO RHAN O'R GYLLIDEB WRTH GEFN**
Awgrymir clustnodi £998k o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer anghenion ariannu cynlluniau cyfalaf (tudalen 9).

## 3. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:**

**3.1 nodi ac ystyried y sefyllfa cyllideb 2011/12,**

**3.2 cadarnhau'r argymhellion cyflwynir yma, ac**

**3.3 ychwanegu argymhellion eraill, er mwyn rheoli ac addasu cyllidebau refeniw'r Cyngor a'i adrannau am y flwyddyn gyfredol, i'w cyflwyno i'r Bwrdd ar 14 Chwefror 2012, os yn briodol.**